Page 1-12 July 9/7/14 14:22 Page 1

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'


CYF. 36. RHIF 2 GORFFENNAF 2014 50c

# BLWCH ARIAN PRINCES ROAD WEDI EI WERTHU AM BRIS UCHEL

Yn yr *Herald Cymraeg* (21 Mai) cafwyd erthygl diddorol gan Tudor H. Jones yn sôn am flwch arian a fu yn eiddo i'r Parch John Williams, Brynsiencyn yn cael ei werthu gan gwmni David Rogers Jones. Rhodd o Gapel Princes Road i'r bugail oedd y blwch arian unigryw. Bu'r ocsiwn ym Mae Colwyn ar fore Mawrth, Mai 27, 2014.

Bu John Williams yn Weinidog yng Nghapel Princes Road o 1895 hyd ei ymddeoliad ym 1906. Cafodd y bocs ei wneud yn Birmingham yn 1905, ac mae ei du mewn wedi ei leinio â sidan glas. Y tu fewn i'r bwlch mae sgrôl sydd yn dod allan o'r blwch ac yn ymestyn i ddwy droedfedd gyda ysgrifen o'i fewn yn canmol rhinweddau y pregethwr nerthol o Fôn.


Yn ei ddydd yr oedd John Williams yn icon. Priododd â merch gyfoethog o Lerpwl ac etifeddodd lawer o gyfoeth ei thad, David Hughes, Winterdyne, a dyna sut mae John Williams oedd yn berchen y car modur cyntaf a welwyd ar ffyrdd Ynys Môn ac y mae ei gartref Llwyn Idris, Bryn Siencyn oedd y tŷ cyntaf ar yr Ynys i gael trydan.




*Dr. John Williams*

Oherwydd ei gefnogaeth ddi-ildio i Lloyd George cafodd y pregethwr hwyliog ei ddawn ei benodi yn Gyrnol y Fyddin, a'i brif orchwyl o 1914 i 1916 oedd perswadio miloedd o Gymry'r capeli i'r rhengoedd. Llwyddodd yn Lerpwl, er ei fod yn siomedig am ymateb bechgyn cefn gwlad Môn oedd am arbed eu crwyn, ac wedi eu magu mewn capeli oedd yn arfer pregethu efengyl tangnefedd.

Amcan bris y blwch arian oedd £300 - £400 a derbyniodd yr arwerthwr gynigion o blith Cymry Lerpwl dros yr amcan. Un o'r goreuon oedd £525. Ond syndod i bawb oedd gweld y blwch arian sy'n cynnwys ar ei glawr llun o Gapel Princes Road yn mynd am £1,300, swm enfawr pan gofiwn amcanbris yr arwerthwr. Y mae trysorau Cymry Lerpwl yn bethau prin.



## YN Y RHIFYN HWN:

Siop Newydd yn Allerton - Newyddion Cymdeithas Cymry Birkenhead, Eglwysi Bethania, Bethel, Seion – Cymanfa Ganu Manceinion – Sasiwn Genhadol y Chwiorydd – Gosod Plac ar lan afon Iorddonen

Page 1-12 July 9/7/14 14:22 Page 2

Golygyddol

# TRYSORWN EIN HIAITH

## – gan D. Ben Rees

Byddaf yn meddwl yn aml pa mor freintiedig ydan ni Cymry yn cael canolfannau i gyfarfod ynddynt, iaith wefreiddiol i'w siarad, a phobl o'r un cefndir, diddordebau yn cyfnewid sgwrs ac yn meddwl am ei gilydd. Bardd godidog oedd Iwan Llwyd y bu rhaglen gofiadwy arno y dydd o'r blaen ar S4C, a gresyn ei golli yn gynamserol. Yr oedd ganddo gymaint i gyfrannu ac yr oedd ganddo ei hoffterau, sef Môn, Ceredigion a Lerpwl. O Môn y deuai ei dad, y Parchg. D. Lloyd Williams, ei fam o Droed yr aur yng ngodre Ceredigion, ac yr oedd ei deulu wedi gwreiddio ers blynyddoedd yn Lerpwl.

Yn ei gywydd 'Anadl Llywelyn' y mae yn cyffelybu ein hiaith i dros ddeg ar hugain o wahanol agweddau a phethau, a'r rheini yn hynod o bwysig yn ein bywydau. Mae'r Gymraeg yn hwyl, yn ganu gwlad, yn gasgen gwrw, yn gynnes, gyffyrddus, yn wely plu, yn llenwi yr ystafell, ond gall hefyd fod yn law plwm, hynny yw yn dychryn y dewraf ohonom. Mae hi yn boen, yn llewyg ac yn gwlwm hiraeth, yn ein clymu gyda'n gorffennol, y cymunedau a'n cenhedlodd yn y Gymru oedd ohoni pan y'n ganwyd. Felly y mae iddi gynhaliaeth beunyddiol, ein cyfrinach yn ôl y bardd, yn

*'gri/yn achwyn drwy'r cromlechi:/*
*'n adlais hud y chwedlau'.*

Hi yw ein henaid am hynny mae angen capel i'n gwarchod yn ysbrydol, a 'ni ein hunain' sydd yn gofalu fod ei hansoddeiriau a'i berfau i'w glywed. Os hi yw anadl Llywelyn ap Gruffudd, ie Llywelyn ein Llyw Olaf, cawr o Gymro penderfynol, hi y Gymraeg yw ein hanadl ni o ddydd i ddydd. Galwad sydd gennyf i ni drysori ein hiaith, ymgyrchu drosti ar lwybrau syml fel annog eraill i bwrcasu *Yr Angor* o fis i fis a'i fwynhau.

Daeth yr iaith i ni o 'chwedl ein cenhedlu' (geni) a bydd gyda ni hyd at ei 'glo marw'; a chytunwn un ac oll, mae'n drysor o'r mwyaf i'w gwarchod a'i defnyddio.

# SIOP NEWYDD YN ALLERTON

## *Fferyllydd o Gymro*



*Yr Arglwydd Faer yn cyfarch Eric Goodwin*

Llongyfarchiadau i Eric Goodwin am brynu siop wag gyferbyn â llyfrgell Allerton ar gyfer ei fferyllfa Green Lane Pharmacy. Un o Fangor ydyw, yno y magwyd ef ac yno y cafodd ei addysg cyn derbyn paratoad ym Mhrifysgol Lerpwl ar gyfer bod yn Fferyllydd.

Ar fore Mawrth, 27 Mai am 8.45 agorwyd y siop yn swyddogol gan yr Arglwydd Faer, Gary Miller a soniodd am yr hyfrydwch o weld y gymuned yn bresennol i ddymuno yn dda i'r fenter.

Siaradodd Eric Goodwin yn dda gan ddiolch i bawb a fu'n gweddnewid yr adeilad ac y bydd ei fab hynaf yn graddio eleni fel fferyllydd ac yn ymuno yn y busnes. Dymunir yn dda iddynt ar eu menter newydd gan ddiolch am ei wasanaeth pan fu yng ngofal siop fferyllydd Penny Lane ac am y deg mlynedd diwethaf yn Allerton Road/Green Lane.




***Eric Goodwin a'i deulu a'i gefnogwyr***

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Yn yr oedfa ar fore Sul, Mai 18 canmolodd yr Athro D. Ben Rees y nifer oedd yn bresennol, gan ddweud fod mwy ym Methania nag oedd Sul cynt yng Nghapel y Gro, Betws Gwerful Goch pan fu yno yn gwasanaethu mewn Oedfa Undebol. Capel y Gro a Chapel Melin-y-wig yn cyd gyfarfod, a fod Bethania yn esiampl i Gymry Edeyrnion. Yr oeddem i gyd wedi ein cyfareddu ac yn benderfynol byth eto i gwyno mae cynulleidfa fach sydd yn dod ynghyd. Rhaid bod yn gadarnhaol a gosod y cyfan yn ei gyd-destun.

Eleni eto cyfranodd y Capel yn anrhydeddus i Gasgliad Blynyddol Cymorth Cristnogol. Teimlwn rheidrwydd arnom i gyfrannu yn deilwng. Daliwn i ddisgwyl gan Gwmni Teledu sy'n gofalu am *Ddechrau Canu, Dechrau Canmol* S4C pa bryd y daw y camerau i recordio ein Cymanfa yng Nghapel Bethel, ein chwaer eglwys. Ond pan ddaw'r dyddiad gwyddom y bydd ein Gweinidog yn cysylltu yn ddiymdroi gyda'r capeli sydd yn derbyn *Yr Angor* o fis i fis. Diolch amdano, ac i Mrs Marian Lyons am ei ddosbarthu yn egnïol yn nhraddodiad y ddiweddar annwyl Nan Lewis.

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Ein cofion at yr aelodau a charedigion yr achos sydd heb fwynhau iechyd da yn ddiweddar. Cafwyd y pleser o groesawu Mrs Dilys Askew yn ôl i'r oedfa Sul, 18 Mai wedi ysbaid o waeledd. Bu Mrs Megan Vaughan yn Ysbyty Arrowe Park yn cael triniaeth i'w llygad. Derbyniodd driniaeth i'r ddwy lygad erbyn hyn. Bu'r cyfan yn llwyddiant. Deil Mrs Margaret Jones, New Brighton yn Ysbyty Hoylake yn cael gofal ar ôl torri ei chlun tra ar ei gwyliau yn Llydaw. Mae yn gwella yn dda. Yn gwbl nodweddiadol o Margaret yw ei bod yn poeni mwy am eraill yn yr ysbyty nac am ei hun. Mr Edgar Hughes-Jones yn ôl yn y 'Royal' yn Lerpwl yn cael archwiliadau pellach. Gwelir Mrs Gwyneth Thomas yn llawn bywyd ac yn sionc iawn, ac yn canmol y gofal mae yn ei gael yn Penketh Lodge Nursing Home yn Wallasey. Yn ddidwyll iawn cofiwn amdanoch i gyd yn ein gweddïau fel eglwys a chofiwn am y teuluoedd hefyd sydd y gofalu amdanoch. Gobeithio fy mod fel gohebydd Seion wedi cofio am bawb o'r cleifion, ac os ydwyf wedi gadael rhywun allan, nid o fwriad ond o anwybodaeth y gwnaed hynny.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road/ Auckland Road, Lerpwl

Llongyfarchiadau calonnog i Dr. John G. Williams, Gwydrin Road, ar gael ei ethol y Llywydd Eisteddfod Môn. Cymerodd yr Eisteddfod le yng Nghaergybi ar ddydd Sadwrn, Mai 17, a rhoddodd anerchiad a hir gofir. Derbyniodd Mr. Mike Dooling, Rainhill, ei M.B.E. gan y Dywysoges Anne ym Mhalas Buckingham ar ddechrau Mai. Llongyfarchiadau cynnes iddo eto. Gwelir llun yn *Yr Angor* ohono ef, ei briod Eryl a'r meibion, Gareth a Matthew. Mae ganddynt luniau gwerth eu gweld o'r achlysur, rhybeth i edrych yn ôl arno ac i'w gofio am amser maith.

Balch iawn oeddym o gael croesawu'r Athro Huw Rees, Mossley Hill yn ôl i'r oedfaon yn dilyn triniaeth ar ei glun yn Ysbyty Arrowe Park. Mae'r gwella'n cymryd amser. 'Roedd ar ei faglau ond yn siriol. Mae Mr. Ken Pritchard, Allerton wedi bod i mewn ac allan o'r ysbyty. Gobeithiwn y caiff ddatrys y probemauy yn ymwneud â'i iechyd fel y cawn ei gwmni ym Methel.

Ar nos Lun, Mai 19 cawsom ddarlith a chyflwyniad 'power point' gwbl annisgwyl. Trefnwyd gan Urdd y Graddedigion Prifysgol Cymru i'r Athro Mari Lloyd Williams ddod atom i draddodi'r drydedd o'r darlithoedd Saesneg. Yn anffodus iawn daeth salwch sydyn a methodd ddod atom. O dan yr amgylchiadau, cymerodd yr Athro D. Ben Rees ei lle ar y funud olaf a thraddododd y ddarlith a roddodd ym Metws y Coed ar fore Sadwrn, 12 Ebrill mewn Ysgol Un-dydd a drefwyd dan nawdd Cymdeithas Bob Owen ar 'Gymry Lerpwl o'r Dyddiad Cynnar i'n Dyddiau Ni'. 'Roedd y Ganolfan yn llawn a chan fod cyfeillion Saesneg yn bresennol, traddodwyd y ddarlith y tro hwn yn Saesneg.

Cyflwynwyd Dr. D. Ben Rees gan Lywydd y Gangen, Dr. Pat Williams, ac yn anfon ein cofion at yr Athro Mari Lloyd Williams. Dechreuodd y darlithydd gyda'r Siarter a roddwyd i Lerpwl ym 1207 pan oedd ond yn bentref pysgota gan y Brenin John. Byddai ef yn hela ym Mharciau Princes Road a Sefton. Gwelsom un o'r lluniau cynharaf o Lerpwl yn dangos Eglwys Sant Niclas ym 1749. Ai'r Cymru alltud i'r Eglwys hon ar adegau pwysig yn y ddeunawfed ganrif. Un o'r Cymry cynnar a ddaeth i Lerpwl oedd Peter Jones (Pedr Fardd) a anwyd yn Garndolbenmaen. 'Roedd yn ŵr dylanwadol yng nghylch y Cymry a dysgai blant tlawd yn Ysgol Râd y Cymry. Ysgrifennodd emynau gwych yn cynnwys *"Cyn llunio'r byd, cyn lledu'r nefoedd wen"*. 'Roedd Goronwy Owen o Fôn yn gurad y tu allan i Groesoswallt cyn dod yma i Lerpwl. Bu yn Eglwys y Santes Fair yn Walton am ddwy flynyedd a hanner. Collodd ei ferch, Elin, tra yno, ac ysgrifennodd ddarn o farddoniaeth er cof amdani. Aeth i Virginia a daeth y gyfoethog.

Deuai John Elias a Thomas Charles yma yn gyson i bregethu. Erbyn 1806 cynhaliai John Elias wasanaethau yn Eglwys Sant Niclas ar amser cinio. Ym 1787 adeiladwyd Capel Cymraeg Pall Mall. Erbyn 1815 'roedd deg y cant o boblogaeth Lerpwl yn Gymry. Galwyd yr ardal o gwmpas Capel Pall Mall yn "Little Wales". Rhoddodd Dr. Rees a'i gyfeillion o Fwrdd Twristiaeth Cymru blac arbennig i fyny yn yr ardal hon beth amser yn ôl i gofio y gorffennol. Dros y ffordd i'r Capel 'roedd catref yr arlunydd George Stubbs.

Clywsom fod William Roscoe yn garedig tuag at y Cymry. 'Roedd ef yn un o'r Radicaliaid ac 'roedd yn ymladd yn erbyn caethwasiaeth. Cawsom weld llun o Dic Aberdaron, cardotyn oedd yn abl i siarad pymtheg o ieithoedd! Cariai ei lyfrau o gwmpas gydag ef, a hefyd llu o gathod! Talodd William Roscoe am fwthyn bychan i Dic. Claddwyd Dic yn Llanelwy. Erychodd Roscoe hefyd ar ôl John Gibson, R.A. a daeth yma o Gonwy. Rhoddodd gefnogaeth iddo a'i annog i ddod i'w blas yn Springwood o Gapel Pall Mall. Daeth Everton yn gymdeithas fach Gymraeg, y cyntaf y tu allan i Pall Mall.

Adeiladwyd tai yno gan Owen Elias ac eraill ac erbyn 1860 clywyd yr iaith Gymraeg ym mhob rhan o Everton a gai ei alw'n "Gosen Lerpwl", gan yr hanesydd Syr James Picton.

Clywsom am Gwilym Hiraethog (1802-1883) a'i frawd Henry Rees (1798-1869) o Lansannan yn dod i Lerpwl. Gwilym Hiraethog oedd yr Athro Cymraeg cyntaf. Ysgrifennwyd llawer am y ddau. Dechreuodd William Rees y cylchgrawn 'Yr Amserau' yn 1843. Rhwng 1840 a 1970 aeth llawer o genhadon i'r India. John Roberts (Minimus) oedd

Ysgrifennydd cyntaf Y Genhadaeth Dramor. Ysgrifennodd yntau emynau gwych yn cynnwys "Bywhau dy waith O Arglwydd mawr." 'Roedd yn arbennig i ni gael gweld llun o Dr. R. A rthur Hughes (1910-1996). Bu ef yn yr India o 1939 hyd at 1969.

Clywsom am Gymry Patagonia, am Lewis Jones o Gaergybi ac am Edwin Cynrig Roberts, hen daid i Mrs Elan Jones, Templemore Avenue.

Ym myd Meddygaeth clywsom am Evan Thomas a gerddodd o Fôn i Lerpwl ym 1840. 'Roedd yn arbenigwr ar ddelio gyda phroblemau'r esgyrn. 'Roedd ganddo bump o feibion, pob un yn feddyg! Hugh Owen Thomas oedd yr hynaf (1834-1892). 'Roedd ganddo ef Glinig ar fore Sul. 'Roedd yn agnostig ond 'roedd ei wraig Elisabeth yn aelod ffyddlon o Gapel Chatham Street. Gwelsom luniau pedwar o'r adeiladwyr Cymraeg. Dechreuodd David Lloyd George fudiad Cymru Fydd a bu Lerpwl yn ganolfan bwysig gyda help Elis Jones Griffiths a Herbert Lewis. Bu'r mudiad yn llewyrchus hyd at 1969, fel y cofir yn Upper Parliament Street.

Cawsom glywed am y Parchg. John Owen Williams (Pedrog), Pedr Hir a hanes 'Cadair Ddu' Hedd Wyn ym Mhenbedw. Gwelsom lun bedd Harry Evans a fu'n Arweinydd Undeb Gorawl Gymraeg Lerpwl. 'Roedd lluniau da hefyd o Gwilym Deudraeth, J. Glyn Davies, Saunders Lewis ac o gapel mawreddog Princes Road.

Talwyd y diolchiadau cywir i Dr. Rees am noson gofiadwy gan Dr. Arthur Thomas (Trysorydd y Gangen) yna 'roedd paned o de i bawb. Mwynhawyd y ddarlith yn fawr gan y gynulleidfa hardd. Diolchwn i Dr. D. Ben Rees am sefyll yn y bwlch. 'Roedd y tywydd yn difrifol iawn, gyda mellt, taranau a glaw hynod o drwm, ond 'roeddym yn glyd yn y Ganolfan, a llais y darlithydd yn gryfach na'r glaw! Dymunwn adferiad buan iawn i'r Athro Mari Lloyd Williams gan obeithio y cawn ei chroesawu atom yn y dyfodol, cyn diwedd 2014.

Dymunwn hefyd amser hapus a diogel i holl ddarllenwyr *Yr Angor* yn ystod misoedd yr haf, ac yn arbennig y Pwyllgor Gwaith sydd yn gofalu fod gennym bapur bro mor safonol, un o'r goreuon y tybir o'i faint trwy'r wlad.

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

Cawsom noson anarferol iawn yma yn Seion ar Fawrth 31 pan ddaeth "Sian a Sian" o ardal Cerrig y Drudion i'n diddanu gyda llond trol o hwyl a chwerthin yn eu sioe, "Lol a Rwtch". Mae'r ddwy ferch yn boblogaidd iawn yn Ngogledd Cymru, fel actorion, hyfforddwyr actorion a diddanwyr medrus a thalentog. Maent yn defnyddio eu talentau i hyrwyddo'r iaith drwy gyfrwng drama mewn monolog a deialog hwyliog ond gydag ambell ei ergyd bachog tuag arwynebedd a materoliaeth y byd cyfoes. Mewn deialog yn bygwth Eisteddfod Genedlaethol ym Mhenbedw, clywsom gyfeiriadau amserol at ein haelodau a'n hardal a gododd chwerthin iach. Roedd "Mastermind Cymru" yn glyfar, yn gyflym ac yn "slic" gyda chwestiynau gwirion ac atebion ar ffurf sgwrs ar y ffôn symudol. Cawsom hwyl arbennig yn gwrando ar ymdrechion Sian i ehangu gorwelion "Anti Jen" wrth fynd â hi i berfformiad o Shakespeare yn yr awyr agored, gyda'i siampen ac eog myglyd.

'Roedd ei chrynodeb o helyntion carwriaeth Hero a Claudio yn "Much Ado" yn gampwaith – ond yn holl annealladwy gan "Anti Jen". Y diweddglo oedd "Weight Watchers World Cup" -– eitem arall yn cyfleu talentau amlochrog y ddwy ferch o Bentre-llyn-Cymer. Gwnaed y diolchiadau gan Mr Terry O'Neill, gan gyfleu y pleser a gawsom i gyd am noson mor hwyliog.

Cyfeiriodd ein llywydd at ymadawiad ein cyfaill, aelod, a chyn-lywydd y Parchedig D. Glanville Rees i Southport, gan ddymuno iddo pob hapusrwydd yn ei gartref newydd. Hyfryd oedd llongyfarch ein parti o ddysgwyr ar ennill y wobr y gyntaf am eu sgets yn Eisteddfod y Dysgwyr yn yr Wyddgrug yn ddiweddar, ac i Geraint ap Meirion Williams, am ennill ar ei gerddi Saesneg am "Ddŵr" ac archfarchnadau mewn cystadleuaeth lleol.

Wrth i'r tymor ddirwyn i ben, dyma noswaith hapus gyda'n gilydd yn rhannu profiadau ein cyn-lywydd Tom Thomas ym myd addysg. "Beth yw addysg" oedd teitl ei sgwrs ac wrth wrando arno gwelsom ei ymrwymiad llwyr i'w swydd fel athro a phrifathro yn Lerpwl, gan gynnwys atgofion hapus iawn am Golomendy, ac yn Birmingham. Pwysleisiodd mai athro yr oedd, ac nid "athro pwnc" ac o'i brofiadau gwelsom ei allu i ymdroi ym mhob pwnc a phob dosbarth – o "Engineering Drawing" i uwch lefelau Saesneg a Daearyddiaeth a chael y canmoliaeth uchaf, "You do'n arf know a lot Sir". Disgrifiodd y gyfathrach arbennig a gafodd yng ngweithredoedd hamdden ei ddisgyblion mewn ymweliadau a gwyliau oddi allan. Dyma mannau lle y gellid adnabod y plant, deall eu problemau a sefydlu perthynas personol gyda nhw. Wrth ddiolch i Tom, dywedodd Mrs Mair Rees Jones fel 'roedd athrawon yn y gynulleidfa yn cysylltu ag ef, ac yn edmygu ei allu fel athro a seiciatrydd plant.

Yn ein cyfarfod blynyddol ar Ebrill 28ain diolchodd y llywydd Mr Bob Jones i'r aelodau, y pwyllgor a'r swyddogion am eu cefnogaeth drwy dymor llwyddianus a llewyrchus. Croesawodd Mrs Eirwen Sargent i'r swydd a diolchodd hithau i Bob am ei ffyddlondeb, ei sirioldeb a'i bleser wrth gyflwyno pob cyfarfod. Etholwyd y Parch Glenys Wilkinson yn is-lywydd am y tymor nesaf, a Mr Trefor Roberts a Mrs Iola Edwards i'r pwyllgor. Cytunodd yr ysgrifennydd, y trysorydd, archwiliwr y cyfrifon, a'r gohebydd i'r 'Angor' a'r wasg, i aros yn eu swyddi am flwyddyn arall.

Cofiwch am y Bore Goffi ar Gorffenaf 5ed yn festri Seion.

# CORNEL Y TRYSORYDD
## GORFFENNAF-AWST 2014

| | |
|---|---|
| Mrs Mona Jones, Bron y Garth | £12.00 |
| Mr a Mrs Brian Thomas, Mossley Hill | £20.00 |
| Mr E. Goronwy Owen, Allerton | £100.00 |
| Mr a Mrs Robyn Wiliams, Caergybi | £20.00 |
| Mr a Mrs John Sargent, Penbedw | £25.00 |
| Yr Athro Huw Rees, Mossley Hill | £20.00 |
| Er Côf am Mr John Price Lloyd, Benllech | £20.00 |
| Mr a Mrs Euryn Roberts, Abergele | £25.00 |
| Mrs Mair Roberts, Rhuthun | £30.00 |
| Mrs Enid Hughes Jones, Lerpwl | £25.00 |
| Mr a Mrs Selwyn Jones, Llanfairpwll | £25.00 |
| Mr Dafydd Gwylon, Arberth | £15.00 |
| Mrs Ann Jones, Bebington | £20.00 |
| Mr Ron Gilford, Manceinion | £25.00 |
| Mr a Mrs Alun Vaughhan Jones, Childwall | £20.00 |
| Yr Athro D A Price Evans, Woolton | £20.00 |
| Rhodd Pwyllgor Cerdd Cymry Manceinion | £150.00 |
| Mrs Doris Jones, Llangefni | £20.00 |
| Mrs Sian Spink, Cilgwri | £11.00 |
| Mr a Mrs Glyn Davies, Rhuthun | £25.00 |

**Cyfanswm £628.50**
*Roderick Owen (Trysorydd)*

# Cymanfa Ganu Manceinion 2014



Cynhaliwyd Gymanfa Ganu Dosbarth Manceinion yng nghapel Altrincham eleni ar brynhawn Sul, 11 Mai 2014. Yr arweinydd oedd Mr Geraint Roberts, Prestatyn a'r organyddes oedd ei wraig Mrs Angela Roberts. Er mai bychan oedd y gynulleidfa cafwyd canu brwdfrydig a llawer o hwyl o dan arweiniad ein harweinydd medrus. 'Roedd yn ein deall i'r dim. Roedd yn amlwg fod y rihyrsal misol rhwng Hydref a Mai o dan arweiniad Mr Trefor Davies a Mrs Eflyn Evans wedi bod yn fendithiol. Anfonwn ein cofion at Mrs Lilian Garrett a fethodd a bod hefo ni fel organyddes oherwydd gwaeledd. Bu hithau yn elfen hanfodol yn y rihyrsals ac ergyd drom oedd ei cholli pythefnos cyn y Gymanfa. Diolchwn i Mrs Angela Roberts am ei pharodrwydd – er yn brysur iawn – i ddod atom ar fyr rybydd i lenwi'r bwlch ac achub y sefyllfa.

Yng nghyfarfod y prynhawn pleser oedd cael gwrando ar Mr Trefor Davies, Altrincham yn canu emyn ar ei dôn fuddugol a gyfansoddodd ar gyfer yr Eisteddfod a gawsom ym mis Mawrth. Yng nghyfarfod y nos cawsom anerchiad gan y Llywydd, Mrs Mair Swift. 'Roedd hi yn sôn am hanes canu yng Nghymru dros y canrifoedd a thyfiant y traddodiad o Gymru fel 'gwlad y gân' yn cynwys canu gwerin, cerdd dant, corau meibion a sêr y byd opera. Ond yn fwy arbennig cyfeiriodd at y trysor sydd gennym yn ein casgliad o 'Ganeuon Ffydd' sy'n dangos fod y Cymru yn arbenigo ar donau gafaelgar a geiriau ardderchog sy'n dal yn addas i'n bywydau ni heddiw.

Cafwyd te blasus iawn rhwng y ddau gyfarfod wedi ei baratoi gan ferched y capel. Diolch i bawb a gymerodd ran ac a fu'n gymorth i wneud ein Cymanfa yn llwyddiant unwaith eto.

---

# *Noson o adloniant ym Manceinion*

Ar nos Sadwrn, 22 Mawrth cawsom noson ddifyr fel Cymry. Yn anffodus oherwydd gwaeledd nid oedd modd i Mrs Lilian Garret, athrawes y Dysgwyr fod yn bresennol a gwelsom ei cholli yn fawr. Y mae mor egnïol a dawnus. Darparwyd rhaglen lawn, unawdau ar y piano, offerynnol, dau grŵp lleisiol, cân werin, canu emyn a'r Côr yn seinio Gorfoledd o dan arweiniad Mrs Eflyn Evans. Nid dyna o bell ffordd oedd yr adloniant, derbyniwyd emyn-donau newydd sbon, llenyddiaeth a barddoniaeth raenus, Yna cafwyd adran y cyfieithu, limrig, delyneg ar y Rhyfel Mawr (a welir ar ddiwedd yr adrodiad hwn).

Blasus oedd y coginio. Cacen spwng ar gyfer unrhyw achlysur arbennig oedd y dasg i'r cogyddion. Mrs Glenys Davies, Altrincham a gipiodd y wobr allan o bump haeddiannol. Yn Adran Ffotograffiaeth llun o adeilad hanesyddol oedd y dasg, a daeth Iestyn Roberts, Altrincham i'r brig.

Enillydd cadair Hywel Jones, Deganwy oedd Trefor Davies am ei emyn-dôn, a rhoddwyd cwpan arian i Ken Thompson, Noddfa am ei gyfraniad fel dysgwr. Y mae yn bellach yn organydd yn Noddfa, yn gefnogol a haelionus. Roedd yn llwyr haeddu'r anrhydedd.

Llywydd y noson oedd Elwyn Evans, giamstar wrth y gwaith, a'r beirniaid Gareth Evans, Manceinion (Cerdd), Dr. Huw J. Jones, Porthaethwy (Llên), Eflyn Evans (Coginio), Dr. Anthony Robbin (Ffotograffiaeth). Llwyddiant eto yn 2014, a diolch o galon i bawb a gyfrannodd i'r Noson gofiadwy.

*(Ymddiheuriadau nad oedd lle yn y rhifyn diwethaf, ond er talfyru'r hanes, cawn gipolwg ar fwrlwm y cystadlu yn Didsbury – Gol.)*

---

**Y RHYFEL MAWR 1914-1918**

Franz Ferdinand a saethwyd  
Yn Sarajevo gynt –  
Bu'n sbardun i gyflafan  
Ledaenodd fel y gwynt.

Ein hogiau ifanc glandeg  
Anfonwyd draw i'r gâd,  
Heb wybod beth i'w ddisgwyl  
Wrth ymladd dros eu gwlad.

Mewn ffosydd mwdlyd, drewllyd,  
Yn llawn o lygod mawr –  
Ceid bythol danio'r gelyn  
Yn rhwygo nef a llawr.

Fe laddwyd miloedd yno,  
Anafwyd llawer mwy  
Ym mrwydrau'r Somme a Fflanders,  
Effaith gwenwynig nwy.

A heddiw'r oll sy'n aros  
Yw cerrig beddau gwyn  
I gofio aberth enbyd  
Y meibion gwrol hyn.

Eleni fe gawn gofio  
Canmlwyddiant dechrau'r gâd  
Ond dal i frwydro'n giaidd  
Mae rhai mewn llawer gwlad.

Paham mae dyn mor barod  
I ladd a chlwyfo nawr –  
Pa bryd y dysgir gwersi  
Erchylltra'r Rhyfel Mawr:

*Ffugenw: Kaiser Bill*

(Ôl-nodyn: Y buddugol oedd Glyn Morris, Altrincham yn Eisteddfod Manceinion 2014)

# SASIWN GENHADOL CHWIORYDD Y GOGLEDD 2014 YNG NGHAPEL EBENESER, DOLGELLAU

***gan Mair Powell***

Cynrychiolwyd Seion, Penbedw, Bethel, Lerpwl a John Street, Caer, yn Sasiwn Genhadol Chwiorydd y Gogledd a gynhaliwyd y flwyddyn hon yng Nghapel hardd y Methodistiaid, Ebeneser, Dolgellau, yn Nosbarth Gorllewin Meirionnydd.

Wrth gychwyn ar ein taith o Benbedw, ’roedd yn fore dwl, gwlyb, ond wrth gyrraedd yr Hen Wlad daeth yr haul allan i’n croesawu. Wedi tamaid o fwyd yng Nghrasdy’r Gader, gwnaethom ein ffordd i Ebeneser. ’Roedd llawr y capel yn gyfforddus lawn i gyfarfod y pynhawn a chawsom ganu emynau cyn dechrau’r cyfarfod. Braf oedd cael cyfraniad gan ddeuddeg o blant Ysgol Gynradd Llanelltyd, gyda phum cân swynol. Rhoddodd y Llywydd, Mrs Meinir Lloyd Jones o’r Penrhyn goffâd i Miss Gwen Catherine Evans. Galwai merched yr India hi’n “Annwyl Mother” ac hefyd “Yr un siriol”. Aeth allan i’r India ym 1958 a chyfieithodd yr Ysgrythur i iaith Semenaga, tipyn o gamp. Wedi dychwelyd o’r India, ’roedd ei chyfraniad i fywyd Cristnogol Llundain yn enfawr. Derbyniodd y Fedal Gee. ’Roedd y Parchg. Meirion Morris wedi cael y fraint o’i gweld mewn Cartref Henoed yn Llundain a darllenwyd coffâd iddi ganddo yntau. Diolchwn i Dduw amdani, ei gwaith pwysig a’i chymeriad hardd.

Cyflwynwyd Anna Jane Evans sydd yn gweithio gyda Chymorth Cristnogol i’r gynulleidfa gan y Llywydd. Hi oedd siaradwraig y prynhawn. Gan ein bod newydd ddathlu’r Pasg, soniodd wrthym am lyfr a olygwyd gan Janet Morley. ’Roedd ynddo ddarnau o farddoniaeth a gweddïau yn ymwneud â’r Pasg, rhai yn dangos fod llawer ohonom yn hunanol ac yn colli golwg ar y “llun mwy” o ddeall mawredd gwyrth y Pasg. Mae rhai pobl ifanc yn mynd fel “interns” i weithio gyda Chymorth Cristnogol yn ystod eu blwyddyn “gap”.

### Profiadau yng Ngholombia

’Roedd rhai wedi ysgrifennu am eu profiadau yng Ngholombia. Mae llawer o’r ffermwyr yno yn gwerthu olew palmwydd. Planhigyn bychan ydyw. Defnyddir ef gan rai i addurno eu cartrefi tra’r edrychir arno fel chwyn gan eraill. Ffyrdd wahanol o edrych ar yr un peth, ac mae hyn yn digwydd sawl gwaith mewn bywyd.’ Roedd y ffermwr yn dysgu ei ferched sut i ddefnyddio’r tir i fwydo eu teuluoedd. Yn 1966 daeth rhyfel a’r teulu’n penderfynu aros yn eu cartref gan obeithio y byddent yn ddiogel. Gwrthododd ffermwr cyfagos werthu ei dir i’r para-milwyr gyda’r canlyniad iddynt ei ladd, torri ei ben i ffwrdd a’i ddefnyddio fel pêl-droed. Aeth arswyd drwyddom i gyd wrth glywed am y fath erchylltra. Mae gweithredoedd mwyaf dychrynllyd yn cymeryd lle yn ein byd heb i ni bob amser glywed amdanynt. Ffoi oedd unig obaith y ffermwr a’i deulu, a dyna a wnaethant.

Ymhen amser, dychwelsant i’w cartref, ond ni theimlant yn ddiogel. Ym mhoffwydoliaeth Micha, “Bydd pob dyn yn eistedd dan ei winwydden a’i ffigysbren heb neb i’w dychryn”. Dyhea’r byd am y math yma o ddiogelwch.

Mae Wythnos Cristogol ar ddod, Mai 11eg i’r 17eg. Mae’r gweithwyr yn ceisio newid pethau a chodi llais yn ystod yr wythnos bwysig hon. Y llynedd, drwy’r wlad hon, codwyd bron i £13,000,000 yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol. Daeth £9,000,000 o’r swm yma o’r casgliad tŷ i dŷ. Mae’r gwaith yma’n gallu bod yn anodd dros ben, ond mae’n hynod o bwysig Yma, ym Methel, Lerpwl, mae Miss Carys Jones, Barnhill Road, yn gwneud gwaith ardderchog o ofalu am y casgliad tŷ i dŷ bob blwyddyn, gyda gwirfoddolion eraill yn ei chynorthwyo o flwyddyn i flwyddyn.

Mae gwaith tuag at Fasnach Deg yn bwysig hefyd, ond y peth pwysicaf yw gweddïo. Dywedodd Anna Jane fod gobaith yr efengyl er gwaetha’r erchylltra i gyd a daw’r awr i ninnau ganu Haleliwia gyda phobl led led y byd. Felly mae cariad y Pasg yn dod i’w anterth.

## Digwyddiadau ar y Glannau y misoedd nesaf

**Bore Goffi Cymdeithas Cymry Birkenhead**
**yn Ysgoldy Capel Seion, Laird Street, Penbedw,**
**Sadwrn, Gorffennaf 5ed.**
**Elw at y Gymdeithas**

---

**CYFARFOD BLYNYDDOL Y PAPUR BRO – YR ANGOR**
***yn Ystafell y Gweinidog, Capel Bethel, Auckland Road, Lerpwl 15/18 am 2.30 ar bnawn Llun, 14 Goffennaf 2014 o dan gadeiryddiaeth Dr. John G. Williams***

---

Cyfarfod Dosbarth Lerpwl o Eglwys Bresbyteraidd Cymru.
***Oedfa o Fawl a Myfyrdod i Ddathlu Bywyd Thomas Charles (1755-1814), Bala.***
Cenir ei emynau ac emynau ei frawd a cheir cyfraniad gan Gantorion Bethel.
*Bydd yr oedfa ar fore Sul, 21 Medi 2014 am 10.30 o’r gloch. Lluniaeth i ddilyn.*

---

**CYMDEITHAS ETIFEDDIAETH CYMRY’R GLANNAU**
yn cynnal Cyngerdd
**ar nos Sadwrn, 25 Hydref am 7.30 o’r gloch**
**yng Nghapel Bethel, Heathfield Road, Lerpwl**
**Artistiaid – Côr Tŷ Tawe o ddinas Abertawe.**
Rhoddwn groeso y ddinas i’n cyd-Gymry

Dywedodd wrthym fod Carolau'r Plygain bob amser yn sôn am y Pasg, a chwaraeodd dâp o un ohonynt i ni, gan ofyn i ni weddïo wrth wrando ar y gerddoriaeth. 'Roedd yn ddiweddglo teimladwy i'w sgwrs fendithiol. Teimlem ein bod wedi gwrando ar un oedd ar dân dros yr Efengyl a thros gyfiawnder yn ein byd. Heddychwraig o argyhoeddiad a ffrind y dirmygedig. Diolchwyd i Anna Jane gan y llywydd ac aethom allan o'r capel drwy ganu "Diolch i Ti yr hollalluog Dduw am yr efengyl sanctaidd."

### Cyfarfod yr hwyr

Wedi paned yn festri Ebeneser daeth yn amser i gyfarfod yr hwyr. Bu canu emynau cyn y cyfarfod dan arweiniad Llywydd y pnawn, gyda Nerys Roberts, Dolgellau wrth yr organ. Llywydd cyfarfod yr hwyr oedd y Parchg. Eirlys Gruffydd, Yr Wyddgrug. 'Roedd cyfarchion gan Mrs Ann Hunt ar ran Dosbarth Manceinion a chan Miss Mona Jones, Weston Rhyn o'r ysbyty. Dyma'r ail Sasiwn Genhadol iddi ei cholli mewn 48 o flynyddoedd! Dywedodd i Sasiwn Genhadol Lerpwl ym 1967 fod yn agoriad llygad iddi. 'Roedd pawb yn gweld ei cholli ac yn dymuno'n dda iddi.

Cafwyd gwasanaeth dechreuol, ac adroddwyd 'Ar Gyfeiliorn' gan Gwenallt gan Leisiau'r Nant. Galwyd ar Mrs Eirlys Wright, Conwy ymlaen i groesawu pawb i Sasiwn 2015 i Eglwys Unedig Llandudno yn Nyffryn Conwy. Siaradodd y Parchg. Nan Wyn Powell Davies, Yr Wyddgrug ar ran Bwrdd Bywyd a Thystiolaeth gan roddi syniad o sut y mae ein harian yn cael ei ddefnyddio. Dywedodd Mrs Mary Thomas, y Trysorydd wrthym fod y swm o arian a ddaeth i law o'r Eglwys eleni yn dod i £17,670. 'Roedd casgliad prynhawn y Sasiwn yn £367.46 a chasgliad yr hwyr yn £333.30, hyn yn gwneud cyfanswm o £18,370.76 sydd yn wirioneddol werthfawr.

Cyflwynwyd siaradwraig yr hwyr, sef Beryl Vaughan, Llanerfyl, gan y llywydd, cynghorydd ar Gyngor Sir Powys ac yn Is-lywydd C.W.M. Cododd lawer i arian i Zambia. Dewisodd emyn fel ei thestun sef 'Bywha dy waith o Arglwydd Mawr' gan Minimus, sef John Roberts, Lerpwl (1808-80). Ef oedd Ysgrifennydd cyntaf Pwyllgor Cenhadol Lerpwl ym 1840. Mabwysiadwyd Bryniau Casia fel ein maes cyntaf. Cysylltwyd yr emyn â chyfnod Habacuc yn Israel. Gŵr o Judea oedd Habacuc, yn byw yn Jerusalem. Mae dechrau'r emyn yn ddeisyfiad taer. Mae'r holl fyd angen Duw a rhaid croesi terfynnau er mwyn ennill y byd i Grist. Duw yw y Cenhadwr Mawr sydd yn gwneud disgyblion o'r holl genhedlaethau. Plant y gwlith ydym ni ac nid plant y cawodydd mawr. 'Roedd dymuniad brwdfrydig gan John Roberts i ehangu'r Efengyl yn Lerpwl a Chymru. Mae'n deisyfu adfywiad yn nystiolaeth yr Efengyl. Mae angen nerth yr Ysbryd Glân ar weinidogion i wneud eu gwaith. Dywedodd G. K. Chesterton ar ddyfodiad y meicroffon, *"One man can now speak to the whole world, but he has nothing to say."* Ond mae Duw wedi datguddio ei gariad tuag atom yn Iesu Grist ar Galfaria. Prif angen Cymru heddiw yw cyhoeddi'r Efengyl. Rhaid i ni yn gyntaf gael adfywiad personol. "Bywha dy waith O Arglwydd mawr yn ein calonnau ninnau'n awr." Brwydr yw bywyd yn erbyn pechod y ein calonnau ni. Ni ddylem ddigaloni oherwydd mae grym Iesu Grist yn ddigon i'n hachub. Mae yna obaith. Gweddïwn ar i Dduw ein gwneud yn Gristnogion hŷ a dewr a ffyddlon.

Wedi araith rymus gan Beryl Vaugham daeth Lleisiau'r Nant ymlaen y tro hwn i adrodd 'Salm y Genedl' gan Jennie Eirian Davies. Diweddwyd Sasiwn arall trwy ganu "Bendigedig fyddo'r Iesu." Aethom allan o'r capel unwaith yn rhagor dan ganu "Diolch i Ti yr hollalluog Dduw am yr efengyl sanctaidd." Bu hon yn sicr yn Sasiwn lwyddiannus, grymus a chroesawgar.

Mae'n diolch yn fawr i Mrs Morfudd Williams, Seion, Penbedw, am ein cludo i Ddolgellau ac y ôl. 'Roedd hyn yn golygu teithio dros gant a hanner o filltiroedd. Mwynhawyd y Sasiwn yn fawr ac hefyd brydferthwch creadigaeth Duw o'n cwmpas yn nhymor y Gwanwyn.

## GAIR I'R DARLLENWYR

**Anfonwch eich tâl am Angor 2014-15 o £11 (Mehefin 2014-i Mai 2015) i'r Trysorydd mor fuan ag y medrwch.**

## *Anrhydeddu Mike Dooling, Rainhill*

Anrhydeddwyd Mike Dooling gyda'r fedal MBE am ei holl waith ym myd y mabolgampau. Anrhydeddwyd ef ym Mhalas Buckingham.




***Mike ac Eryl a'r meibion Matthew a Gareth ar yr amgylchiad hapus***


Llongyfarchiadau oddi wrth dîm *Yr Angor*, a diolchwn am gyfraniad Mrs Eryl Dooling i gapel Bethel, y Gymdeithas Lenyddol, Undeb Gorawl Cymry Lerpwl a llu o fudiadau eraill.

Page 1-12 July 9/7/14 14:22 Page 8

# Gosod plac ar lan afon Iorddonen




*Llwyddiant ein apêl*




*Yr artist a'r arolygwraig*

***Myfyrdod y Mis***

## PENTECOST *gan Elwyn Parry*

Fe ddywedodd y bardd Gerald Manley Hopkins bod yna obaith i'r byd "Nature is never spent, there lives the dearest freshness deep down things" Y gobaith? Yr Ysbryd Glân. Hanner can diwrnod ers y Pasg pryd y dywedwyd y caffer tywalltiad yr Ysbryd Glân yw Gŵyl y Pentecost.

Os gwn i fyddwch chi'n diolch am bregethau'r saint ac am eu bugeiliaeth drosoch yn eich dyddiau cynnar? Yn nechrau'r 50au gweinidog Waunfawr oedd y Parchedig Harri Williams cyn iddo symud i Aberystwyth, a chofiaf ef gydag anwyldeb ac hefyd rhai o'i bregethau enwedig pan soniodd un nos Sul i gymharu Babel a Pentecost ac y buasai'n egluro yn y "Seiat" ar y nos Iau yr wythnos wedyn!!! Felly fu. Ac yn y gymhariaeth fe ddywedodd fel hyn. Yn 'Babel' – terfysg – yn 'Pentecost' - cyd-ddeall. Yn Babel roedd y bobol wedi colli ei gilydd am eu bod wedi colli eu Duw. Wedyn, yn y Pentecost, pobol yn cael ei gilydd am fod Duw wedi eu cael hwy. Dyna fesur y gwahaniaeth rhwng bywyd heb yr Ysbryd a'r bywyd yn yr Ysbryd. Fe aeth ymlaen i sôn am broblemau byd ac wir maent yr un fath heddiw ond efallai yn fwy angerddol a dwys sef cwestiwn hil, dwyrain a gorllewin, yr Eglwys a'r byd ac hefyd rhwng gwlad a gwlad. Gyda dyfodiad yr Ysbryd doedd dim problem na all yr Ysbryd ei datrys. Dywed yr Arglwydd am y "gwynt yn chwythu lle y mynno" ac ni wyddom "o ba le y mae yn dyfod na i ba le y mae yn myned". Felly "mae pob un a'r a aned o'r Ysbryd."

Cofiaf Dr. Donald Soper mewn pregeth yn gweiddi "Open the windows of your lives and let the wind of the Holy Spirit blow the cobwebs of despair, apathy and disappointment." Onid dyna yw ein hangen o ddifrif sef agor ffenestri ein bywyd i dderbyn y "gwynt"? Pan fyddwn yn adeiladu heb yr Ysbryd onid yw pob dim o'n heiddo yn gorffen mewn terfysg a diflastod. Ymateb i ddyfodiad yr Ysbryd yw pob wir gynnydd.

Pan gawsom y tywydd braf ychydig yn ôl fe aethom i Caswell Bay a phasio'r tŷ lle roedd Francis Ridledy Havergal yn arfer byw – mae yna lechen yn dweud hyn a hi ysgrifennodd yr emyn a gyfieithwyd mor odidog gan J. D. Vernon Lewis "Gwawr wedi hirnos…". Roedd y tŷ uwchben y môr ac arferai Francis agor y ffenestri i gael gwynt y môr. Anfonwyd iddi delyn 'Aeolian' oedd yn ôl y sôn fod y delyn hon yn canu miwsig o'r hyfrytaf. Fe geisiodd gynhyrchu'r miwsig gyda'i bysedd ond i'w siom ond nodyn undonnog gafodd. Yna, darllennodd y cyfarwyddiadau ynglŷn â'r ffordd i'w hymarfer. Gosododd hi'r delyn mewn ffenestr AGORED a phan ddaeth yr awel i'r ffenestr a chwarae ar y tannau, fe lanwyd y tŷ â'r miwsig pereiddiaf.

Ysywaeth mae'n ffenestri'n cau ac Anadl Duw yn chwythu'n ofer. Geiriau olaf i Harri Williams –

*Iesu yw'r Iôr! a sanctaidd Ysbryd nerthol*
*a enfyn Duw i ddangos mai Iesu yw'r Iôr.*

Page 1-12 July 9/7/14 14:22 Page 9

# Cydnabyddiaeth ryngwladol i'r diweddar Morgan Parry

Mae sefydliad bywyd gwyllt y WWF mewn cynhadledd yn Brasil wedi anrhydeddu sylfaenydd WWF Cymru, Morgan Parry (1958-2014) a fu farw rai wythnosau yn ôl. Magwyd Morgan yn Garthdale Road, Allerton a dysgodd y Gymraeg ar y aelwyd ac yng Nghapel Heathfield Road lle y bu yn hynod y ffyddlon i'r ddarpariaeth a wnaed ar gyfer yr ifanc. Ef yw un o gynnyrch anwylaf ein cymuned y deugain mlynedd diwethaf.



***Morgan Parry***

Mae ei enw wedi'i gynnwys ar y Rhestr Anrhydeddau Rhyngwladol am ei gyfraniad i Gymru, fel sylfaenydd a phennaeth WWF Cymru, cadeirydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru, ac aelod amlwg o Fwrdd cyfoeth Naturiol Cymru. Treuliodd gyfnod yn aelod o Fwrdd Cyfeillion y Ddaear a Phwyllgor Gogledd Cymru Asiantaeth yr Amgylchedd. Roedd yn cynghori Llywodraeth Cymru ar yr amgylchedd. Yr oedd yn ŵr canol oed dylanwadol ac yn ôl Anne Meikle, Pennaeth WWF Cymru: *"Er bod ei farwolaeth annhymig yn golygu na fu modd iddo orffen y hyn a dechreuodd, rwy'n credu bod y llu o deyrngedau diffuant yn dangos ei fod wedi ysbrydoli llawer o bobl eraill i barhau â'r gwaith hwn."* Coffa da amdano.

## RYSAIT Y MIS
# TIFFIN

***Cynhwysion:***

4 owns o fenyn
1 owns o siwgr brown tywyll
3 owns o driog melyn
3 owns o bowdwr siocled (*drinking chocolate)*
8 owns o fisgedi digestive
ychydig swltanas, resins neu gnau wei malu

***Dull:***

1. Toddwch y menyn, siwgr a'r triog mewn sosban.
2. Ychwanegwch y ffrwythau neu'r cnau, a chymysgwch yn dda.
3. Malwch y bisgedi digestive (ond nid yn rhy fân) ac ychwanegwch at y gymysgedd.
4. Rhowch mewn tin 15cm x 25cm (Mae angen dyblu y cynhwysion i lenwi tin Swiss Roll).
5. Toddwch siocled tywyll i orchuddio'r top.
6. Gadewch iddo oeri ac yna ei dorri yn sgwariau

# Ymateb Gareth Neigwl o Llanw Llŷn

Daeth llythyr yn ystod y mis hefyd oddi wrth Bill McEvoy yn Lerpwl, a'r amlen yn cynnwys copi o'r *Angor*, papur Cymraeg glannau Mersi a Manceinion. Er bod Billy ar lannau'r Mersi ers blynyddoedd lawer, mae yntau fel minnau wedi ei godi ym Moduan. Diolch o galon iddo am ei ddiddordeb. Meddai:

'Darllen yn *Llanw Llŷn* bod Alun, Faerdre, wedi'n gadael; eithr i ni ym Moduan, Alun Tan Graig ydoedd, cesyn o foi pan yn blentyn, ac fe fyddem ni weithia'n codi'r ffôn i gael gair â'n gilydd.'

Mae'n chwith meddwl cymaint y mae Boduan wedi newid wrth i'r hen wynebau ddiflannu. Fel yr adleisia'r dinc hiraethus yn llythyr Billy, trigolion ychydig iawn o gartrefi'r fro sy'n gyfarwydd i ni yno bellach. Yr hyn a'm tarodd i wrth bori yn *Yr Angor* oedd hysbyseb uniaith Gymraeg dros hanner y dudalen gefn gan *Pearson Collinson* trefnwyr angladdau, sydd mewn busnes yn 87-91 Allerton Road, a 255 Speke Road, Lerpwl. Bydd yr enw Pearson yn canu cloch i nifer ohonoch, yn enwedig yn ardal Bryncroes, oberwydd mai i Fodgaea' Ucha' yr anfonwyd *Frank Pearson* yn 'faciwi yn ystod y rhyfel. Fe'i cofir gan rai iau yn eich plith hefyd, tra 'roedd ar ymweliad â Llŷn oddeutu deng mlynedd ar hugain yn ôl, yn rhoi sgwrs am ei brofiadau yn ystod cyfnod ansicr y rhyfel i ddisgyblion ysgol Pont y Gof. Rhwng aelwyd Bodgaea', yr ysgol, y capel a'r cyrddau diwylliannol fe'i cymhathwyd i'r gymdeithas, nes iddo wedi dychwelyd i'w ddinas enedigol, fynychu'r Ysgol Sul yn nghapel Bethel, achos Cymraeg y Methodistiaid yn Heathfield Road, am flynyddoedd. Mae stori *Frank Pearson* yn dangos cymaint o newid a fu yn ystod y deng mlynedd a thrigain diwethaf.

Roedd Cymry'r mil naw pedwar degau drwy eu croeso a'u cyfeillgarwch a thrwy lynnu at eu hiaith, yn cymhathu'r newydd ddyfodiaid i'w plith ac yn eu gwneud nhw'n rhan annatod o'r gymdeithas. Erbyn hyn rydan' ni'n cyfieithu ar eu cyfer, rhywbeth sydd ar un wedd yn awgrymu (a chadarnhau hefyd ym marn rhai) nad oes yn rhaid wrth y Gymraeg i fyw yn Llŷn, nac i fod yn rhan o'r gymdeithas yma, mwy na gweddill Cymru. Ac mae yna Gymry deallus yn ein taer rybuddio erbyn hyn bod peryg' y byddwn ni'n talu'r pris hefyd.

Mae'r Saeson yn wahanol iawn i ni yn hyn o beth – mae nhw'n disgwyl i bobl o ba genedl bynnag sy'n symud i Loegr fedru Saesneg. Chewch chi fawr o gyfieithu yno chwaith oni bai eich bod chi'n brin eich dealltwriaeth o'r Saesneg wrth wynebu llys barn!

*Ôl-nodiad – Credaf fod y llenor o Lŷn wedi camgymryd enw y bechgyn Pearson. Aeth dau o'r bechgyn a chwaer am loches. Enwau'r bechgyn oedd Henry Pearson a'r diweddar Pat Pearson. Gol.)*

# Dyddiau Cynnar Penmachno

## GAN BRIAN THOMAS (MOSSLEY HILL)

**Pennod 3**

Mae ffatri wlân ym Mhenmachno, ffatri byd enwog '*Hannah Jones and Sons'*. 'Roedd yn cynhyrchu bob math o gynnyrch gwlân, fel dillad gwlau, sannau gwlân a *pullovers* a phethau tebyg. 'Roedd fy mrawd hynaf yn gweithio yno, ac felly 'roeddem ni'n meddwl fod ganddo ni hawl mynd yno fel y mynnom, ar negesau weithiau, neu am fod arnom ddim byd i'w wneud. Mae tair llawr i'r ffatri. Y llawr isaf oedd y lle oeddynt yn paratoi'r gwlân, ei dynnu a'i nyddu a'i olchi, a'i wneud yn edafedd y gellid ei weithio. 'Roedd peiriannau a "rollers" mawr yn tynnu'r gwlân a'i wneud yn barod i'w weithio. Yn y llawr canol y byddai y peiriannau gweu, lle gweithiai Yncl Davis, a'r peiriannau, llond y llawr, yn mynd yn ôl ac ymlaen gyda twrw annaearol, ac yn creu y darnau mawr o frethyn. Yn y llofft uchaf y cedwid y gwlân gwreiddiol, a ddeuai i mewn, mewn sachau mawr, o'r ffermydd. 'Roedd degau o'r sachau yma, o bob maint yn cael eu storio yma, a hogla lanolin mawr yn perfeiddio drwy'r ystafell. Os oeddem yn gallu cyrraedd y llofft uchaf yn saff 'roeddem yn gallu chwarae cuddio yno. Byddai John Rees yn aml ar ein holau i'n hel adref.

### Cae Cathod Bach

Byddwn yn gallu cuddio rownd y sachau nes byddai'n colli ei dymer. Byddem yno am oriau weithiau, cyn cael ein hel adref. Meddyliwch am hynny, mewn adeilad efo dau lawr o wahanol fathau beiriannau perygl ofnadwy. Mi fuasai pobl Iechyd a Diogelwch yn cael cathod bach heddiw. Diwrnod Ffair neu Farchnad yn Llanrwst oedd y diwrnod goreu i fynd i'r Ffatri, canys byddai John Rees, y perchenog, a Rtchie Thomas y *foreman*, yn siop y Ffair yn gwerthu'r cynnyrch. Yn y ffatri hefyd, y byddai bobl yr ardal yn 'chargio batteries'. Fel y mae rhai ohonoch yn cofio, radios, 'wet cell batteries' oedd gan bawb, a rheini yn dibynnu ar gael eu chargio. Fel 'roedd y *battery* yn mynd yn llai effeithiol, 'roedd rhaid mynd a'r glust yn nes at y radio, ac anodd iawn weithiau oedd clywed terfyn ambell i raglen gan pa mor isel oedd y '*sound*'. Ddim yn gwybod ambell i dro pwy oedd wedi ennill ambell i gêm, neu ffeit, tan diwrnod wedyn. 'Roedd gennym, fel plant, gân ddychan a fyddem yn ganu, ac fel hyn y byddai'n mynd –

*John Rees y ffatri, Yankee Millionaire,*
*Yn gwneud crysau khaki ijiwio bobl hen;*
*Ac Eban Rees, ei frawd, a hwnnw heb ddim bawd,*
*Yn hanner chargio batteries i jiwio bobl dlawd.*



***Richie Thomas***

Jiwio oedd y gair oeddem yn ddefnyddio i ddynodi rhywun oedd yn cymeryd mantais ariannol ar rhywun.

Mae'n debyg eich bod wedi sylweddoli fod testun y bennod 'nid angel bach diniwed oeddwn' ym Mhenmachno, ond un yn llawn o ddrygioni plentyn ac ynghanol pob strach yn gwbl wir .'Roedd Nyrs llawn amser ym Mhenmachno, Nyrs Jones oedd ei henw, ac 'roedd hi'n gallu bod yn ddynes reit chwyrn, 'roedd ganddom dipyn bach o i hofn a dweud y gwir.' Doedd hi ddim ond 4ft. 6in., ond 'roedd hi fel '*Pocket Battleship*', a fi oedd y babi cyntaf iddi ddod i'r byd ar ôl cyrraedd yno, fel y byddai'n ffond o ddweud wrthyf, a chofiaf yn dda iddi ddweud wrthyf unwaith, pan oeddwn wedi ei chythruddo am rhywbeth, "Dy adal 'di lle'r oeddat ti, ddyliwn i fod wedi ei wneud 'ngwas i." 'Dachi'n cofio, adeg y rhyfel, 'doedd dim minciag ar gael heb gwpons, yr unig rai dwi'n gofio oedd ar gael oedd, 'Nipits', neu 'Hacks'. Wel 'roedd gennym ni ffordd o gael darn o Barley Sugar am ddim. Os aem i siop Anne Bach Iesu Grist ac adrodd adnod newydd sbon byddai yn torri darn o farli siygar inni. Ond bydda hi'n cofio os oedd hi'n hen adnod, a dim barli siygar. "Ti 'di deud honna o'r blaen," meddai , "cer allan."

### Pob Cymro yn gallu canu

Mae pob Cymro yn gallu canu! Wel dyna ichwi gelwydd ynte. Y gwir, hwyrach, ydi fod pob Cymro yn hoffi canu. A fod pob Cymro yn hoffi pe buasai yn gallu canu. Ond, mae rhai ohonom, yr ychydig lleiaf, yn druenus. Cofiaf, yn frywiedig, fod mewn criw o blant, foreu prelim Eisteddfod Fawreddog Nadolig Penmachno, oedd agored i'r byd. Yno i adrodd oeddwn. Ond 'roedd y prelim canu tan wyth yn gyntaf. 'Roedd pentwr o blant yn trio, ac yn mynd i fyny ar y llwyfan, un ar ôl y llall. A dyma fi'n meddwl, alla i ganu cystal a rhei'na! A dyma fi'n ymateb i'r arweinydd, "Oes 'na rhywun arall eisiau canu tan wyt?" A dyma fi i fyny ar y llwyfan,

"O Lili Wen fach, O ble daethost ti,
A'r gwynt mor arw, mor oer ei gri,
Sut y mentraist ti allan, drwy'r eira i gyd.
Does flodyn bach arall i'w weld yn y byd ?".

Methu deallt paham 'roedd y beirniad â gwên fawr ar ei wyneb a phawb arall yn chwerthin. Chefais i 'mo'r stage y diwrnod hwnnw. Ond 'roedd gwell hwyl ar yr adrodd. Ges i swllt am ennill ar hwnnw,

*"Traed chwarter i dri Wil Bach aeth a hi,*
*Er bod i draed o mewn clocsiau,*
*A thylla'n 'i sana, pedwerydd oedd Wi!."*

Wedyn dwi'n cofio bod mewn côr yn paratoi at gystadleuaeth arall, a Richie Thomas yn ein dysgu. Dechreu canu, ac yna Richie'n deud, "Reit pawb ganu, heblaw y rhes blaen", ac wedyn, "pawb ganu heblaw y rhes ganol," ac wedyn, pawb ganu heblaw y rhes ôl". Fanno oeddwn i fel arfer. Ac wedyn Richie'n deud, "Brian, nei 'di helpu Ifor Jones i droi'r tudalennau, neith o ddeud wrthat ti pryd i droi." A doeddwn i'n dda i ddim byd am wneud hynny chwaith. Felly sylweddolais yn fuan iawn yn fy ngyrfa, nad o'n i'n mynd i fod yn ffefryn gan Richie Thomas, y canwr enwog.

*(i'w barhau)*


**Pris Hysbysebu**

**Hanner tudalen – £30**
**Chwarter tudalen – £15**
**Llai na chwarter o £5 i £10**
**Pris llai am flwyddyn gyfan**




**CYSTADLEUAETH STORI FER ALLEN RAINE**

Annwyl Gyfeillion,

Byddwn yn ddiolchgar iawn pe baech yn gallu tynnu sylw eich darllenwyr i'r gystadleuaeth flynyddol uchod. Yr ydym yn awyddus i ddenu awduron o bob cwr o Gymru ac mae'n bleser i nodi bod nifer y cystadleuwyr yn cynyddu. Beth bynnag eich oedran, diddordebau, profiad ysgrifennu - ewch amdani drwy ysgrifennu stori fer mewn unrhyw arddull neu genre - yr unig amod yw bod hi wedi ei gosod yng Nghymru. Fe allech ennill y wobr gyntaf o £200 , diolch i nawdd hael gan Gylch Emlyn, neu'r ail wobr, sef casgliad o lyfrau Gwasg Gomer, un o noddwyr y gystadleuaeth Gymraeg.

Beirniaid y gystadleuaeth Gymraeg yw Karen Owen a'r Athro Jane Aaron. Fe fyddan nhw hefyd yn cyd-feirniadu'r cynnyrch Saesneg gyda Sally Roberts Jones, Llywydd Cymdeithas Ddathlu Allen Raine, sefydlwyr a threfnwyr y gystadleuaeth sydd nawr yn ei seithfed flwyddyn. Yr enillydd llynedd oedd Ruth Richards o Fiwmares gyda Anwen Pearce, Aberystwyth yn ail.

Ceir fwy o wybodaeth am Allen Raine a hanes y Gymdeithas ar y wefan www.allenraine.com. Gobeithiaf y byddwch yn gallu ein helpu; gwirfoddolwyr sy'n rhedeg y gymdeithas ac yn codi arian am y gwobrau, ayb, felly rym ni'n ddibynnol ar ffynonellau lleol fel papurau bro i hysbysebu'r gystadleuaeth. Diolch eto.

*Yn gywir iawn,*

*Dr Carol Byrne Jones*
*(Ysgrifennydd Cymdeithas Ddathlu Allen Raine)*

## CWMNI OPRA CYMRU

*Annwyl Olygydd,*

Mae cwmni OPRA Cymru yn bum mlwydd oed ac eisioes wedi creu pedair opra, sydd wedi cael canmoliaeth gan unigolion, sefydliadau ac adolygwyr.Yng ngoleuni hyn ac wrth baratoi y pumed opra, i'w berfformio ym mis Medi, mae'r cwmni yn credu ei fod yn bryd sefydlu 'Cyfeillion OPRA Cymru'.

Rydyn ni'n galw felly ar unrhyw un sydd wedi mwynhau perfformiad OPRA Cymru yn y gorffennol ac yn awyddus i fod yn Gyfaill i gwmni sydd yn creu operau Cymraeg ac yn dod ag operau i bobl ledled Cymru, i gysylltu â ni am sgwrs.

Y syniad ydy y bydd y Cyfeillion yn gymdeithas o bobl a fyddai'n gallu cynorthwyo i feithrin diddordeb yn OPRA Cymru ac yn llysgenhadon dros yr achos gan hefyd symbylu rhoddion a chymynroddion a chynnal cronfa gynorthwyol. Gyda'r Cyfeillion wedyn ar eu hennill o ran derbyn gwybodaeth am OPRA Cymru, cael eu gwahodd i ddigwyddiadau arbennig, mynd ar deithiau a chael y cyfle i gymdeithasu gyda phobol â'r un diddordebau.

Mae hyn oll yn agored i drafodaeth wrth gwrs gan mai dyma'r man cychwynnol.


Erfynwn felly ar unrhyw un o'r darllenwyr sydd ag unrhyw fath o ddiddordeb i gysylltu â ni os gwelwch yn dda.

*Yn gywir,*

*Sioned a Patrick Young,*
*Cyfarwyddwyr OPRA Cymru*
*07800 907404*
*opra.cymru@yahoo.com*

## Ras Beiciau Arall dros y Berwyn

Yn ystod Mis Mai cynhelir Ras beiciau i godi arian i achosion da dros y Berwyn. ac eleni cynhaliwyd yr unfed ar hugain Ras. Disgwylir i bob un o'r beicwyr gwplhau'r daith o 22 milltir o dref Croesoswallt dros unigeddau'r Berwyn. Mewn glaw mawr llwyddwyd i godi y swm aruthrol o bum mil o bunnoedd a llongyferchir y trefnwyr a'r cystadleuwyr am y gamp.



# KITCHENER Y BWTSIAR

Hanes Kitchener yn *Llafar Gwlad*, Mai 2014

Ymysg yr erthyglau yn rhifyn Mai y cylchgrawn *Llafar Gwlad*, mae hanes Horatio Herbert Kitchener. Dyma wyneb mwyaf adnabyddus y Prydeinwyr wrth gofio am y Rhyfel Mawr, efallai – mae'r poster a'r bys yn cael ei gyfri yn ddelwedd eiconig o'r recriwtio a'r rhyfela. Mae'n ymddangos ar bob pensil, miniwr a chwalwr a llu o drugareddau eraill yn siopau ein hamgueddfeydd y dyddiau hyn. Cyn hir, bydd hefyd yn cael ei bathu ar gefn darn dwybunt.

Mae'r erthygl yn *Llafar Gwlad* yn dangos yn glir mai clodfori'r rhyfel, nid cofio'r gyflafan yw hyn i gyd. Yn ogystal â bod yn bennaeth lluoedd arfog Prydain yn y Rhyfel Mawr, ef oedd pennaeth byddin y Prydeinwyr yn Ne Affrica yn ystod Ail Ryfel y Boer. Wedi nifer o frwydrau eraill yn Affrica lle'r oedd byddin broffesiynol Prydain yn cynaeafu miloedd o frodorion gwaywffonog gyda'u gynnau, brwydr yn erbyn ffermwyr o dras Ewropeaidd oedd Rhyfel y Boer. Er mwyn torri ysbryd y Boer, cynlluniodd Kitchener garcharau lladd anferth ar gyfer plant, gwragedd a henoed byddinoedd gerila y Boer. Doedd dim gofal iechyd na fawr o fwyd a diod yn y gwersylloedd hyn a lladdwyd 28,000 o bobl a phlant dan amodau'r Prydeinwyr. Carcharau lladd Kitchener oedd yr ysbrydoliaeth i'r S.S. a Hitler yn yr Ail Ryfel Byd. Mae'r hanes llawn yn Llafar Gwlad yn codi'r cwestiwn a ddylai gwladwriaeth Prydain ddyrchafu Kitchener wrth hyrwyddo Prydeindod yn 2014.



## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes newyddiaduriaeth Cymraeg 2014. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor*.


- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
  i) **Rhifyn Awst/Medi 2014 –** erbyn bore Mawrth, 1 Gorffennaf neu ar y we i benatgarthdrive@talktalk.net neu ben@garthdrive. fsnet.co.uk
  ii) **Rhifyn Hydref 2014 –** erbyn bore Sadwrn, 30 Awst – y lluniau, adroddiadau etc.
  iii) **Rhifyn Tachwedd 2014** – erbyn bore Mercher, Hydref 1 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk


***Cyfrol Hardd ar gyfer Eisteddfod Llanelli***
***Clamp o gyfrol ar y ffordd.***

**Cofiant Jim Griffiths**
**Arwr Glew y Werin**
**gan D. Ben Rees**




Cyhoeddwyd gan y Lolfa, Talybont, Ceredigion.
Gweler gwefan www.ylolfa.com

Rhif y llyfr Clawr Meddal 978-1847719010
Clawr Caled 978 9 84771.

Tudalennau - 350


Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol gyda Mr. Alan Hughes ffoniwch 0151 722 1514

National Association of Funeral Directors Est 1905